Tecovirimat 200 mg capsiwlau caled (TPOXX®)

Gwybodaeth i'r defnyddiwr

Ynglŷn â tecovirimat

Defnyddir Tecovirimat (TPOXX®) mewn oedolion a phlant sy'n pwyso o leiaf 13kg i drin:

- y frech M (brech y mwncïod)
- y frech wen
- brech y fuwch
- cymhlethdodau yn sgil brechlynnau'r frech wen

Mae'r frech wen, y frech m a brech y fuwch yn heintiau feirysol. Fe'u gelwir hefyd yn glefyd feirws brech ortho.

Mae tecovirimat yn gweithio drwy atal y feirws rhag lledaenu. Bydd hyn yn helpu eich corff i adeiladu amddiffyniad rhag y feirws nes eich bod yn well.

Mae **diogelwch** tecovirimat wedi cael ei brofi mewn bodau dynol rhwng 18 a 79 oed.

Mae **effeithiolrwydd** tecovirimat wedi'i astudio mewn anifeiliaid yn unig hyd yn hyn. Mae hyn oherwydd bod clefyd feirws brech ortho yn brin ymhlith pobl. Mae'r astudiaethau ar anifeiliaid sydd wedi'u cynnal yn dangos bod tecovirimat yn effeithiol wrth drin clefydau feirws brech ortho.

Mae Tecovirimat wedi'i roi ar bresgripsiwn i chi yn unig. Peidiwch â'i rhoi i eraill. Gallai eu niweidio, hyd yn oed os yw eu harwyddion salwch yr un fath â'ch rhai chi.

Pobl a allai beidio â chael tecovirimat

Peidiwch â chymryd tecovirimat os oes gennych alergedd i tecovirimat neu unrhyw un o gynhwysion eraill y feddyginiaeth hon (gweler y rhestr yn 'Tecovirimat a meddyginiaethau eraill')

Efallai nad yw Tecovirimat yn addas i bawb. Cyn cymryd tecovirimat, dywedwch wrth eich meddyg neu'ch fferyllydd os:

- nad yw eich system imiwnedd yn gweithio'n iawn (imiwnoddiffygiant) neu os ydych yn cymryd meddyginiaethau sy'n gwanhau'r system imiwnedd (fel corticosteroidau dos uchel, meddyginiaethau atal imiwnedd neu feddyginiaethau canser)
- oes gennych broblemau ar yr arennau neu afu
- oes epilepsi gennych
- ydych yn blentyn â phwysau corff o lai na 13kg

Peidiwch â gyrru na gweithredu peiriannau os ydych chi'n teimlo'n wan, yn benysgafn neu'n gysglyd.

Mae Tecovirimat yn cynnwys lactos a lliw melyn machlud (E110), felly:

- os oes gennych anoddefgarwch i rai siwgrau, cysylltwch â'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cyn cymryd tecovirimat
- byddwch yn ymwybodol y gall cyfryngau lliwio fel melyn machlud (E110) achosi adweithiau alergaidd

Tecovirimat a meddyginiaethau eraill

Dywedwch wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol os ydych yn cymryd, wedi cymryd yn ddiweddar neu y gallech gymryd unrhyw feddyginiaethau eraill.

Gall cymryd tecovirimat gyda rhai meddyginiaethau eu hatal rhag gweithio'n iawn, neu wneud unrhyw sgil-effeithiau'n waeth. Efallai y bydd angen i'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol roi meddyginiaeth wahanol i chi neu addasu'r dos o feddygaeth rydych chi'n ei chymryd.

Dywedwch wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol os ydych yn cymryd unrhyw un o'r meddyginiaethau canlynol:

- repaglinide (a ddefnyddir i drin lefelau siwgr yn y gwaed mewn diabetes)
- omeprazole, lansoprazole, neu rabeprazole (a ddefnyddir i drin wlserau neu ddŵr poeth)
- midazolam (a ddefnyddir i roi pobl i gysgu cyn gweithdrefn lawfeddygol)
- bupropion (a ddefnyddir i drin iselder)
- atorvastatin (sy'n cael ei ddefnyddio i drin colesterol uchel)
- flurbiprofen (sy'n cael ei ddefnyddio i drin poen)
- methadon (a ddefnyddir i drin poen neu symptomau diddyfnu oddi ar gyffuriau)
- darunavir, maraviroc, neu rilpivirine (a ddefnyddir i drin heintio HIV)
- sildenafil, tadalafil, neu vardenafil (a ddefnyddir i drin trafferthion ymgodol)
- voriconazole (a ddefnyddir i drin heintiau ffwngaidd)
- tacrolimus (a ddefnyddir i atal y system imiwnedd)

Tecovirimat a beichiogrwydd, bwydo ar y fron a ffrwythlondeb

Os ydych chi'n feichiog, yn credu eich bod chi'n feichiog neu'n bwriadu cael babi, gofynnwch i'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol am gyngor cyn cymryd y feddyginiaeth hon. Nid yw tecovirimat yn cael ei argymell yn ystod beichiogrwydd, oni bai bod y manteision yn cael eu hystyried yn drech na'r risgiau.

Ni wyddys a yw tecovirimat yn cael ei alldaflu mewn llaeth dynol. Nid yw bwydo ar y fron yn cael ei argymell yn ystod triniaeth gyda'r feddyginiaeth hon. Dywedwch wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol os ydych yn bwydo ar y fron neu'n bwriadu bwydo ar y fron cyn cymryd y feddyginiaeth hon.

Nid yw effeithiau tecovirimat ar ffrwythlondeb pobl wedi cael eu hastudio.

Sut i gymryd tecovirimat

Mae cwrs triniaeth yn para 14 diwrnod. Mae'n bwysig gorffen y cwrs hyd yn oed os ydych yn teimlo'n well. Os byddwch yn rhoi'r gorau i gymryd tecovirimat, gall eich symptomau ddychwelyd neu waethygu.

Y dos tecovirimat a argymhellir i blant sy'n pwyso 13kg i lai na 25kg yw:

- **1** capsiwl tecovirimat 200mg wedi'i gymryd gyda bwyd **bob 12 awr**

Y dos tecovirimat a argymhellir i blant sy'n pwyso o 25kg i lai na 40kg yw:

- **2** gapsiwl tecovirimat 200mg (cyfanswm dos o 400mg) wedi'u cymryd gyda bwyd **bob 12 awr**

Y dos tecovirimat a argymhellir i oedolion a phlant sy'n pwyso 40kg neu fwy yw:

- **3** chapsiwl tecovirimat 200mg (cyfanswm dos o 600mg) wedi'u cymryd gyda bwyd **bob 12 awr**

Dylid cymryd tecovirimat o fewn 30 munud i fwyta pryd bwyd sy'n cynnwys calorïau a braster cymedrol.

Os na allwch lyncu'r capsiwlau, efallai y bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn argymell agor y capsiwl a pharatoi'r dos fel a ganlyn:

1. Golchwch a sychwch eich dwylo.
2. Daliwch y capsiwl gyda'r cap yn wynebu am i fyny a thynnu'r cap oddi wrth gorff y capsiwl. Ceisiwch sicrhau nad yw'r cynnwys yn gollwng nac yn dianc i'r awyr.
3. Defnyddiwch gynhwysydd bach i gymysgu cynnwys cyfan y capsiwl â 30ml o hylif (e.e. llaeth, llaeth siocled) neu fwyd meddal (e.e. saws afalau, iogwrt).
4. Os yw'r dos a argymhellir am fwy nag un capsiwl, ailadroddwch y broses hon a chymysgu holl gynnwys pob capsiwl i'r hylif neu'r bwyd meddal.
5. Cymerwch y cymysgedd o fewn 30 munud i'w gymysgu ac o fewn 30 munud i fwyta pryd o fwyd.
6. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n bwyta neu'n yfed yr holl gymysgedd.
7. Golchwch a sychwch eich dwylo eto.

Os byddwch yn cymryd mwy o tecovirimat nag y dylech chi, rhowch wybod i'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol fel y gall eich monitro am unrhyw arwyddion neu symptomau o sgil-effeithiau.

Os byddwch yn methu dos o tecovirimat, anghofiwch y dos hwnnw a pharhau gyda'ch dos nesaf yn ôl eich amserlen. Peidiwch â chymryd dos dwbl i wneud yn iawn am y dos a anghofiwyd.

Os byddwch yn chwydu o fewn 30 munud i gymryd tecovirimat, cymerwch ddos arall ar unwaith. Os byddwch yn chwydu fwy na 30 munud ar ôl cymryd tecovirimat, peidiwch â chymryd dos arall a pharhewch â'ch dos nesaf yn ôl eich amserlen.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ddefnyddio tecovirimat nad ydynt wedi'u hateb yma, gofynnwch i'ch meddyg neu fferyllydd.

Sgil-effeithiau tecovirimat

Fel pob meddyginiaeth, gall tecovirimat achosi sgil-effeithiau, er na fydd pawb yn eu cael.

Mae cur pen yn sgil-effaith cyffredin iawn a allai effeithio ar fwy nag 1 o bob 10 o bobl.

Sgil-effeithiau cyffredin a allai effeithio ar hyd at 1 o bob 10 o bobl:

- pendro, teimlo neu fod yn sâl, dolur rhydd a phoen yn yr abdomen

Sgil-effeithiau anghyffredin a allai effeithio ar hyd at 1 o bob 100 o bobl:

- llai o archwaeth
- lefel uwch o ensymau'r afu
- gorbryder neu iselder
- tymer blin
- pyliau o banig
- meigryn
- teimlo'n flinedig neu'n gysglyd neu'n methu cysgu
- methu canolbwyntio neu â rhychwant sylw isel
- newid o ran blasu
- pinnau bach neu ddiffyg teimlad yn y dwylo, y traed neu'r geg
- poen yn y geg
- rhwymedd
- gwynt (stumog)
- camdreuliad neu anhwylder ar y stumog
- anghysur neu chwyddo i'r abdomen
- ceg sych neu wefusau sych sy'n torri
- wlserau'r geg
- torri gwynt neu fytheirio
- dŵr poeth
- cosi neu frech (llosg danadl)
- poen a stiffrwydd cymalau
- â thwymyn
- cael oerfel
- teimlo'n sâl yn gyffredinol (anhwylder)
- poen
- teimlo'n sychedig
- gweithgarwch trydanol annormal ar ddarlleniadau sgan yr ymennydd
- niferoedd is na'r arfer o gelloedd gwaed coch, celloedd gwaed gwyn neu blatennau mewn prawf gwaed
- chwimguriad y galon (tacycardia) neu guriad calon afreolaidd

Os cewch unrhyw sgil-effeithiau, siaradwch â'ch meddyg, eich fferyllydd neu'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw sgil-effeithiau nad ydynt wedi'u rhestru yn y daflen hon. Gallwch hefyd roi gwybod am sgil-effeithiau yn uniongyrchol drwy'r wefan adrodd Cerdyn Melyn neu chwilio am MHRA Yellow Card yn Google Play neu'r Apple App Store. Trwy roi gwybod am sgil-effeithiau, rydych chi'n darparu mwy o wybodaeth am ddiogelwch tecovirimat.

Sut olwg sydd ar tecovirimat a beth yw ei gynnwys

Capsiwlau oren a du yw tecovirimat, pob un wedi'i argraffu â 'SIGA®' ac 'ST-246' mewn inc gwyn. Mae'r capsiwlau yn 21.7mm o hyd a 7.64mm o gwmpas y canol.

Y sylwedd actif yw monohydrad tecovirimat sy'n cyfateb i 200mg tecovirimat. Y cynhwysion eraill yw:

- Craidd y capsiwl: silicon deuocsid coloidaidd, sodiwm croscarmellose (E468), hypromellose (E464), monohydrad lactos, stearad magnesiwm, selwlos microcrisialaidd (E460) a sodiwm laurilsulfate (E487).
- Cragen y capsiwl: gelatin, FCF glas disglair (E133), erythrosine (E127), melyn machlud (E110) a thitaniwm deuocsid (E171).
- Inc argraffu: sielac (E904), titaniwm deuocsid (E171), alcohol isopropyl, hydrocsid amoniwm (E527), biwtyl alcohol, glycol propylen, a simeticone.

Sut i storio tecovirimat

Cadwch y feddyginiaeth hon allan o olwg a chyrhaeddiad plant.

Peidiwch â defnyddio'r feddyginiaeth hon wedi'r dyddiad dod i ben a nodir ar ôl EXP ar y botel. Mae'r dyddiad dod i ben yn cyfeirio at ddiwrnod olaf y mis hwnnw.

Storiwch tecovirimat o dan 25°C, yn ei becyn gwreiddiol i'w amddiffyn rhag golau.

Peidiwch â defnyddio tecovirimat os ydych yn sylwi bod y capsiwl wedi torri neu ei ddifrodi mewn unrhyw ffordd.

Peidiwch â thaflu unrhyw feddyginiaethau mewn dŵr gwastraff neu yng ngwastraff y cartref. Gofynnwch i'ch fferyllydd beth i'w wneud gyda meddyginiaethau nad ydych yn eu defnyddio mwyach. Bydd y mesurau hyn yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd.

Gwybodaeth Ychwanegol

Iechyd Cyhoeddus Cymru:
https://icc.gig.cymru/pynciau/brech-y-mwnciod/

GIG 111 Cymru:
https://111.wales.nhs.uk/encyclopaedia/m/article/monkeypox?locale=cy&term=A

This leaflet is also available in English Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg.